



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Fframwaith Datblygu Cenedlaethol 2020-2040

Papur Esboniadol am y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol – Y Rhanbarthau

Rhagfyr 2019

## Pam rydym wedi cyhoeddi'r papurau esboniadol hyn?

Yn ystod yr ymgynghoriad ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Drafft, fe wnaeth rhai rhanddeiliaid awgrymu y dylid darparu rhagor o fanylion yn dweud sut mae'r Fframwaith wedi cael ei baratoi. I gynorthwyo'r rhanddeiliaid, rydym wedi creu casgliad o bapurau esboniadol yn cyflwyno'r dystiolaeth sy'n cefnogi'r Fframwaith drafft. Mae'r papurau'n cynnwys y canlynol:

- Y Strategaeth Ofodol
- Asesiadau'r Fframwaith
- Hynt y Fframwaith yn y dyfodol
- Y Rhanbarthau
- Ardaloedd Gwledig
- Yr angen am dai
- Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru a Phorthladdoedd
- Casgliad o dystiolaeth


## Beth yw'r ddogfen hon?

### Y Rhanbarthau

Mae'r papur esboniadol hwn wedi cael ei lunio i gynorthwyo rhywun sy'n darllen y Fframwaith drafft i ddeall y rhesymeg y tu ôl i batrwm y rhanbarthau sydd yn y Fframwaith drafft. Tynnu sylw at y dystiolaeth allweddol sydd wedi cyfrannu at y patrwm rhanbarthau.

## Crynodeb

1. Mae'r patrwm rhanbarthau sydd yn Fframwaith yn cynnwys tri rhanbarth, sef: Gogledd Cymru: Canolbarth a De-orllewin Cymru; De-ddwyrain Cymru. Mae'r rhanbarthau hyn yn adlewyrchu'r dull rhanbarthol a nodwyd gan Lywodraeth Cymru yn *Ffyniant i Bawb: Y Cynllun Gweithredu ar yr Economi*. Mae'r papur hwn yn amlinellu'r prif batrymau eraill a gafodd eu hystyried, ac mae'n nodi'r rhesymau dros ddewis y patrwm tri rhanbarth.
2. Mae'r Fframwaith drafft yn dynodi tri rhanbarth yng Nghymru, ac mae'n nodi cyfres o bolisiâu a strategaeth ofodol eang ar gyfer datblygu, a'r rheini'n benodol i bob rhanbarth. Mae patrwm y tri rhanbarth i'w weld ar dudalen 44 o'r Fframwaith drafft, isod:




## Yr achos dros ddynodi'r rhanbarthau yn y Fframwaith

3. Mae'r Fframwaith wedi dynodi rhanbarthau oherwydd mae sail deddfwriaethol dros gynllunio'n rhanbarthol, a sefydlwyd yn Neddf Cynllunio (Cymru) 2015 <http://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/4/part/3/crossheading/cynllunio-strategol/enacted/welsh>, sy'n gwneud darpariaethau ar gyfer cynlluniau datblygu strategol sy'n cwmpasu ardal mwy nag un ardal awdurdod. Drwy sefydlu patrwm rhanbarthau a chynnig strategaethau a pholisïau gofodol eang ar gyfer pob rhanbarth, mae'r Fframwaith wedi ceisio darparu arweiniad a hwb ar gyfer symud ymlaen i sefydlu haen ranbarthol o gynllunio.
4. O gyfnod cynnar wrth baratoi'r Fframwaith, cydnabuwyd y gallai cynnig patrwm rhanbarthol fod yn rhywbeth dadleuol. Roedd yr amrediad o drefniadau rhanbarthol sy'n bodoli wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn cynnig patrymau y gellid eu dilyn yn y Fframwaith. Roedd y rhain yn cynnwys:
  - Ardaloedd Cynllun Gofodol Cymru
  - Ardaloedd y Byrddau Iechyd
  - Ardaloedd Gwasanaethau Tân neu Heddluoedd
  - Ardaloedd y Bargeinion Dinesig a'r Bargeinion Twf
  - Ardaloedd Teithio i'r Gwaith neu'r farchnad Dai
  - *Ardaloedd Cynllun Strategol 'Traddodiadol' (h.y. SEWSPG, SWWSPG, NWSPG).*

## Cynllun Gofodol Cymru

5. Roedd Cynllun Gofodol Cymru – sef y ddogfen cyn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol – yn cynnwys pwyslais cryf ar ardaloedd is-genedlaethol ac yn dynodi 6 rhanbarth gyda 'ffiniau niwlog'. Dyma ei batrwm rhanbarthau:
6. Fe wnaeth dull Cynllun Gofodol Cymru arwain, i ddechrau, at ryw fath o weithio rhanbarthol, er nid at unrhyw gynllunio strategol ffurfiol o fewn y rhanbarthau. Fe wnaeth yr egni a fuddsoddwyd yn y cysyniad o ranbarthau gilio'n sydyn, a chafodd y 'ffiniau niwlog' eu beirniadu am fod yn amwys.




## Astudiaeth Prifysgol Caerdydd – Dynodi Ardaloedd Rhanbarthol ar gyfer y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol – Awst 2017

7. Yn 2016, fe wnaeth Llywodraeth Cymru gomisiynu Ysgol Daearyddiaeth a Chynllunio Prifysgol Caerdydd <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-08/dynodi-ardaloedd-rhanbarthol-ar-gyfer-y-fframwaith-datblygu-cenedlaethol-adroddiad-terfynol.pdf> i gynnal asesiad o wahanol fodelau rhanbarthol posibl i'w cynnwys yn y Fframwaith. Roedd yr astudiaeth yn cynnwys arolwg o randdeiliaid wrth gasglu tystiolaeth a datblygu gwahanol ddewisiadau ar gyfer patrwm rhanbarthau. Ar fater dull rhanbarthol Cynllun Gofodol Cymru, roedd yr astudiaeth yn datgan:


6.2.1 I grynhoi, noda'r cyfranogwyr fod ardaloedd Cynllun Gofodol Cymru yn rhoi sail ar gyfer archwilio rhanbarthau yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, ond eto mae yna ffactorau pwysig sy'n golygu bod angen ailystyried y diffiniadau o ranbarthau i gyfrif am newidiadau mewn patrymau gweithgarwch a'r maes polisi.

- Roedd yr astudiaeth yn ymdrin â'r dasg o argymhell patrwm rhanbarthau drwy ddefnyddio saith nod llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i asesu 'dwyster y rhyngweithio rhwng ardaloedd gwahanol'. Arweiniodd hyn at gyfres o batrymau rhanbarthol, yn amrywio o ddwy ranbarth i naw rhanbarth. Mae'r amrediad llawn o ddewisiadau i'w weld yn adroddiad yr astudiaeth.

**Ffigur 4: Cymru o Ddiwylliant Ffyniannus a Chymraeg sy'n Ffynnu / 2 Ranbarth**




**Ffigur 15: Cymru Gydnerth / 9 Rhanbarth**




9. Fe wnaeth yr astudiaeth gyfuno'r gwahanol ddewisiadau o bob nod llesiant, gan arwain at y ddau batrwm canlynol.

Ffigur 16: Themâu Llesiant (Wedi'u pwysoli) / 4 Rhanbarth




Ffigur 17: Themâu Llesiant (Wedi'u Pwysoli) / 7 Rhanbarth




10. Roedd yr astudiaeth yn dadlau bod y ddau ddewis uchod yn cynnwys y broblem o rannu un awdurdod lleol (sef Conwy) rhwng dwy ranbarth. Felly, er mwyn cael yr argymhellion terfynol, ychwanegwyd ystyriaethau pellach:

9.2. Wrth bennu'r ffiniau arfaethedig terfynol cafodd ffactorau ychwanegol eu hystyried, yn arbennig rhwydweithiau seilwaith sydd eisoes yn bodoli (ffyrdd, rheilffyrdd, meysydd awyr), patrymau llif cymudo, strwythurau sefydliadol sydd eisoes yn bodoli (fel Bargeinion Dinesig), a natur statudol y FfDC a allai ei gwneud yn ofynnol bod ffiniau rhanbarthol yn alinio â ffiniau Awdurdodau Unedol cyfredol, yn ogystal â'r angen i sicrhau cydbwysedd rhwng is-ranbarthau gwahanol wrth lunio ardaloedd rhanbarthol.

Ffigur 20: Rhanbarthau Arfaethedig / 4 Rhanbarth



Ffigur 23: Rhanbarthau Eraill a Gynigir / 4 Rhanbarth



11. Mae Ffigur 20, uwchlaw ar y chwith, yn dangos y dull roedd yr astudiaeth yn ei argymhell ar gyfer patrwm rhanbarthau yn y Fframwaith.

*9.5 Dewiswyd y 4 rhanbarth arfaethedig yn seiliedig ar gydbwysu'r amrywiad is-ranbarthol â phatrymau rhanbarthol ehangach, ystyriaethau ecwiti a ffactorau sefydliadol. Yn wahanol i Ranbarth-Ddinesig Bae Abertawe a'r Ardaloedd Pwyllgorau Llywodraethu ar y Cyd arfaethedig, nodwyd bod Ceredigion yn gysylltiedig â De-orllewin Cymru. Yn y rhan fwyaf o setiau dadansoddi rhanbartholi, mae'r cysylltiad rhwng Ceredigion, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro yn eithaf cyson, ac felly hefyd y patrymau cyffredinol o lifau cymudo (Ffigurau 21 a 22). Felly, ystyrir Powys yn un ranbarth yn y cynnig hwn.*

12. Mae'r dull arall, sydd uwchlaw ar y dde yn Ffigur 23, yn dangos Powys a Cheredigion yn ffurfio rhanbarth Canolbarth Cymru. Dyma'r cyfiawnhad dros y dewis hwn:

*9.6 Fodd bynnag, os penderfynir gan Lywodraeth Cymru na ddylai un awdurdod sengl greu rhanbarth, awgrymir rhoi ystyriaeth i ranbarth sy'n cynnwys Ceredigion a Phowys o ystyried y cysylltiadau gogleddol sy'n bodoli rhwng y ddau Awdurdod Unedol a rhywfaint o'r dadansoddiad rhanbartholi.*

### **Ffyniant i Bawb: y Strategaeth i Gymru**

13. Fe wnaeth Llywodraeth Cymru gyhoeddi ei strategaeth genedlaethol ym mis Medi 2017. Roedd yn darparu fframwaith cryf ar gyfer mwy o waith rhanbarthol, a hynny er mwyn i'r afael ag anghydraddoldeb rhanbarthol, datblygu ardaloedd twf rhanbarthol a chyflwyno model economaidd newydd sy'n canolbwyntio ar ranbarthau. Nid oedd y ddogfen yn dynodi rhanbarthau daearyddol, heblaw am dynnu sylw at y cynigion ar gyfer y Metro arfaethedig yn Ne Cymru a Gogledd Cymru.

### **Ffyniant i Bawb: cynllun gweithredu ar yr economi**

14. I ddilyn y strategaeth genedlaethol, cafwyd Cynllun Gweithredu ar yr Economi ym mis Rhagfyr 2017. Roedd hwn yn datblygu thema gwaith rhanbarthol, ac roedd yn darparu diffiniad daearyddol ar gyfer rhanbarthau yng Nghymru, yn cynnwys tri rhanbarth. Dyma'r patrwm sy'n cael ei ddefnyddio yn y Fframwaith drafft. Roedd y cynllun yn esbonio:

*Byddwn ni'n sicrhau bod ein rhanbarthau economaidd yn cyd-fynd â'r rheini a ddefnyddir at ddibenion eraill, gan gynnwys Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol a'r rheini sy'n cael eu defnyddio wrth gydweithio ym maes llywodraeth leol.*

15. Fe wnaeth y Cynllun Gweithredu ar yr Economi arwain at sefydlu Prif Swyddogion Rhanbarthol i arwain pob rhanbarth ac i fod yn llais y rhanbarthau yn y Llywodraeth. Mae'r Swyddogion hyn wedi sefydlu perthnasoedd gweithio gyda'r awdurdodau lleol a busnesau yn eu rhanbarthau, ac maent wedi cael y dasg o lunio Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol ar gyfer eu rhanbarthau.

### **Gwaith Craffu'r Cynulliad Cenedlaethol: Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig**

16. Fe wnaeth y Pwyllgor a enwir uchod gynnal yr ymholiadau cychwynnol i'r Fframwaith yn haf 2018, yn ystod ymgynghoriad ar yr Opsiwn a Ffeirir ar gyfer y Fframwaith. Buwyd yn trafod pwnc y rhanbarthau a'r patrwm daearyddol posibl mewn sesiynau casglu tystiolaeth gyda thîm y Fframwaith a gyda thystion arbenigol a rhanddeiliaid.
17. Ysgrifennodd cadeirydd y Pwyllgor at y Gweinidog Cymreig a oedd yn gyfrifol am y Fframwaith yn Awst 2018. Roedd y llythyr yn dweud:

*Mae'r Pwyllgor yn deall bod y tri rhanbarth yn yr opsiwn a ffeirir ar gyfer y Fframwaith yn gyson â'r rhai sydd yn 'Ffyniant i Bawb: cynllun gweithredu ar yr economi', ond roedd ein rhanddeiliaid yn argymhell rhannu rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru i greu pedwar rhanbarth i gyd.*

18. Mewn ymateb i'r Pwyllgor, fe wnaeth y Gweinidog gadarnhau

*Bydd fersiynau o'r Fframwaith yn y dyfodol yn rhydd i adolygu'r dull o ddelio â rhanbarthau.*

## Y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol

19. Fe wnaeth y Fframwaith drafft fabwysiadu model 3 rhanbarth Cynllun Gweithredu ar yr Economi er mwyn sicrhau ei fod yn cyd-fynd â'r pwyslais ehangach yn Llywodraeth Cymru ar weithio'n rhanbarthol. Cydnabuwyd o'r cychwyn cyntaf fod pryderon am y patrwm rhanbarthau, ac yn benodol am gyfansoddiad rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru, fel y tynnwyd sylw atynt gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig.
20. Roedd y Fframwaith drafft yn ceisio mynd i'r afael â'r pryderon hyn drwy ddarparu hyblygrwydd clir i weithio'n rhanbarthol o fewn y rhanbarth. Mae dau baragraff o dudalen 56 o'r Fframwaith drafft yn cael eu dangos isod, gyda phwyslais ychwanegol i dynnu sylw at yr hyblygrwydd cynhenid sy'n cael ei gynnig er mwyn gwahaniaethu rhwng Canolbarth Cymru a De Orllewin Cymru:

*Oherwydd maint a natur amrywiol y rhanbarth mawr hwn, sy'n cynnwys ail ddinas Cymru, dau barc cenedlaethol a rhai o'r ardaloedd mwyaf gwledig yn y DU, nid oes ganddo yr un lefel o gydgyssylltiad ag sydd gan ranbarthau eraill. O safbwynt cenedlaethol lefel uchel, mae dwy ardal ofodol gyffredinol – sef yr ardaloedd adeiledig o amgylch Abertawe, Castell-nedd Port Talbot a de Sir Gaerfyrddin a threfi'r Hafan, a'r aneddiadau gwasgaredig mewn cefnwlod wledig ehangach ar draws gogledd Sir Benfro, Ceredigion, gogledd Sir Gaerfyrddin.*

*Bydd materion strategol cyffredin i'w hystyried ar draws y rhanbarth a materion sy'n benodol â is-ranbarth. Mater i awdurdodau cynllunio lleol fydd penderfynu sut y dylid ymgymryd â gwaith cynllunio rhanbarthol ledled y rhanbarth. Mae'n bosibl y bydd angen cyfuniad o Gynllun Datblygu*

*Strategol ac un neu fwy o Gynlluniau Datblygu Lleol ar y Cyd.*

***Bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi dulliau gweithredu sy'n diffinio isranbarthau ac yn canolbwyntio arnynt, yn hytrach nag yn un rhanbarth cyfan, lle y dangosir bod hyn yn briodol.***

21. Ni chafodd y lefel yma o hyblygrwydd a disgresiwn i awdurdodau cynllunio lleol bennu paramedrau ar gyfer cynllunio rhanbarthol ei gynnwys hefyd yn yr adrannau ar gyfer Gogledd Cymru a De-de-ddwyrain Cymru. Penderfynwyd hyn ar sail y ffaith fod dilysrwydd a phriodoldeb y rhanbarthau diffiniedig hyn ar gyfer cynllunio strategol wedi cael ei dderbyn yn gyffredinol.
22. Mae'r ymgynghoriad ar y Fframwaith drafft yn gofyn cyfres o gwestiynau am gyd-destun rhanbarthol y Fframwaith, gan gynnwys cwestiwn 11:
- Os oes gennych chi unrhyw sylwadau am agwedd neu bolisiâu'r Fframwaith am y tri rhanbarth, rhowch wybod i ni. Os oes gennych chi unrhyw ddewisiadau eraill, esboniwch nhw a dweud pam rydych chi'n meddwl y bydden nhw'n well.*
23. Bydd ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu hasesu, ac ystyrir a fyddai'n briodol newid y patrymau rhanbarthol a'r polisiâu rhwng cloi'r ymgynghoriad a chyflwyno'r Fframwaith drafft i'r Cynulliad Cenedlaethol yng ngwanwyn 2020.